

Craffu ar Gyllideb Atodol Cyntaf Llywodraeth Cymru 2021-22

Gorffennaf 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.wales**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2021-22

Gorffennaf 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021.

Ceir ei gyflwynu gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddCyllid.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Alun Davies AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad.....	7
2. Dyraniadau a wnaed.....	8
3. Blaenoriaethu.....	10
4. Pryderon y Pwyllgor Cyllid blaenorol ynghylch cyllid teg	13
5. Adferiad economaidd	15
6. Trafnidiaeth.....	20
7. Gwasanaethau cyhoeddus	23

Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion mewn cyllidebau atodol yn y dyfodol ar sut mae dyraniadau newydd wedi'u blaenoriaethu.12
- Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i wella tryloywder wrth gyfrifo cyllid, ac ar gyfer mecanweithiau rhyng-lywodraethol a strwythurau llywodraethu mwy effeithiol na'r rheini sydd ar waith ar hyn o bryd, ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ganlyniad y trafodaethau hyn.....14
- Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dyraniadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ysgogi cyfalaf, sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanlyniadau'r dyraniadau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.19
- Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwerthusiad cychwynnol o'i chyllid grant ar gyfer mis Mai a mis Mehefin, gan gynnwys lefel y dyraniadau i fusnesau, lefel y cyllid heb ei wario, a'r rhesymau pam y bu tanwariant (yn enwedig lle mae hyn yn ymwneud â meini prawf cymhwysedd).19
- Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am effaith ariannol ei phenderfyniad i ddileu rhan o'i benthyciad i Faes Awyr Caerdydd, o ystyried ei bod yn ofynnol iddo dalu 80 y cant o gyfanswm y cyllid cyfalaf trafodion ariannol a ddyrannwyd gan Drysorlys EM.22
- Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwybodaeth am ail-flaenoriaethu cynlluniau ffyrdd yn cael ei chyflwyno'n glir ac yn dryloyw yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol.....22
- Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro diben y dyraniad o £100 miliwn ar gyfer y GIG ac yn darparu gwybodaeth bellach, gan gynnwys sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio, ei ganlyniadau arfaethedig a'r modd y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd ar yr effaith y mae'n ei chael yn y pen draw ar restrau aros y GIG.28
- Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar unrhyw ddyraniadau pellach i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol pan fydd y wybodaeth honno ar gael, ynghyd â gwybodaeth am y canlyniadau arfaethedig.....28

Argymhelliad 9. Er ei fod yn cydnabod efallai na fyddant yn annibynnol ar ei gilydd, mae'r Pwyllgor yn argymhell, at ddibenion tryloywder, bod Llywodraeth Cymru yn egluro diben unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cyrff y GIG, ac a yw' cael eu ddarparu i gefnogi adferiad neu drawsnewid/ailgynllunio gwasanaethau.....28

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar fonitro ac effeithiolrwydd y Gronfa Caledi Llywodraeth Leol, gan gynnwys y swm a ddyrennir i awdurdodau lleol a manylion pellach am y £26 miliwn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol.....28

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar drafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chyflog athrawon, a'r mater ehangach o sicrhau bod dyraniadau i fyd addysg yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol, yn hytrach na'r flwyddyn academiaidd.28

1. Cyflwyniad

1. Ar 23 Mehefin 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) y **Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2021-22**.
2. Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth gan y Gweinidog yn ei gyfarfod ar **2 Gorffennaf 2021**.

Sut mae cyllid wedi newid ers Cyllideb Derfynol 2021-22


3. Ers y **Gyllideb Derfynol**, cafwyd Cyllideb y DU a Phrif Amcangyfrifon y DU, gan arwain at gynydd net o £1.388 biliwn yn yr adnodd cyllidol.
4. Roedd rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn darparu diweddariad yn mis Mehefin 2021 ynghylch **rhagolygon ar gyfer trethi Cymru** gan arwain at godiadau yn y Dreth Trafodiadau Tir, £49.2 miliwn a Threth Gwaredu Tirlenwi, £1.6 miliwn. Mae swm yr incwm yn sgil ardrethi annomestig a ddisgwylir wedi gostwng gan £375.9 miliwn, gan adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch rhyddhad ardrethi. Yn unol â'r **Fframwaith Cyllidol**, mae adnoddau yn sgil treth incwm yn parhau i fod yn £2.064 biliwn, sef y rhagolwg ym mis Rhagfyr 2020 (mae rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi codi i £ 2.113 biliwn).¹
5. Mae adnoddau anghyllidol – neu heb fod yn arian parod – wedi cynyddu gan 830 miliwn, yn bennaf mewn cysylltiad â chyllid canlyniadol Barnett o ran Benthyciadau i Fyfirwyr.²
6. Mae cyllid Cyfalaf Cyffredinol yn cynyddu gan £69.7 miliwn, £ 41.3 miliwn o hyn mewn perthynas â chyllid ar gyfer bargeinion Dinesig a Thwf, mae £16 miliwn yn cael ei ail-broffilio o 2020–21, ac mae'r gweddill yn gyllid canlyniadol/trosglwyddiadau net gan Lywodraeth y DU.
7. Cyfalaf trafodion ariannol yn cynyddu gan £9.6 miliwn.
8. Mae Atodiad 1 o **Nodyn Esboniadol** y Gyllideb Atodol dangos cysoni yn sgil portffolios Gweinidogol newydd, o gymharu â Chyllideb Derfynol 2021–22.










¹ **Cyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2021-22, Nodyn Esboniadol, mis Mehefin 2021, tudalen 14**

² **Cyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2021-22, Nodyn Esboniadol, mis Mehefin 2021, tudalen 14**

2. Dyraniadau a wnaed


9. Mae'r Gyllideb Atodol yn dangos cynnydd o £1.2 biliwn (6.2 y cant) mewn Refeniw ynghyd â Chyfalaf a ddyrannwyd i adrannau Llywodraeth Cymru, o £19.7 biliwn i £20.9 biliwn.



	Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf*	Newid o CD i CAG
 Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£9,744m	£128m 1.3% 
 Cyllid a Llywodraeth Leol*	£4,728m	£352m 8.0% 
 Newid Hinsawdd	£2,633m	£126m 5.0% 
 Y Gymraeg ac Addysg**	£2,438m	£519m 27.0% 
 Yr Economi	£596m	£91m 17.9% 
 Materion Gwledig	£356m	£0m 0.0% Dim newid
 Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£322m	£1m 0.3% 
 Cyfiawnder Cymdeithasol	£124m	£2m 1.3% 

10. Mae'r llun uchod yn dangos newidiadau yng Nghyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 21-22 o'u cymharu â Chyllideb Derfynol 21-22.

11. Mae yna ddyraniadau o £706 miliwn o “gronfa wrth gefn COVID-19” fel y dangosir isod.



Delweddau: Yr Uned Craffu Ariannol, Ymchwil y Senedd

12. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi'u cadw yn y Gyllideb Atodol yn cynnwys y canlynol:

- Adnodd cyllidol £1,265 miliwn
- Adnodd anghyllidol £554 miliwn
- Cyfalaf cyffredinol £114 miliwn
- Cyfalaf trafodion ariannol £68 miliwn

13. Cytuniodd Llywodraeth y DU y gallai Llywodraeth Cymru ddwyn oddeutu £650 miliwn o gyllid ymlaen ar ben y terfynau y cytunwyd arnynt yn y Fframwaith Cyllidol, gan fod yr arian hwn wedi'i ddarparu tua diwedd y flwyddyn ariannol.³

14. Mae benthyca cyfalaf arfaethedig yn parhau i fod yn £ 150 miliwn, sef y terfyn blynyddol uchaf yn y Fframwaith Cyllidol.

³ *Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth y DU: Hwb ariannol gwerth £650 miliwn i Gymru*

3. Blaenoriaethu

15. Dywedodd y Gweinidog fod y Gyllideb Atodol hon yn canolbwyntio ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig, ond ei bod hefyd yn gyfle i ailddatgan cyllidebau Llywodraeth Cymru yn unol â'r portffolios gweinidogol newydd. Dywedodd, *"it's fairly technical, the first supplementary budget, moving, I think, back to being more in step with the previous ways in which we did supplementary budgets, before what was an extraordinary year last year."*⁴

16. Ym mis Ionawr 2021, disgrifiodd y Gweinidog i Bwyllgor Cyllid y Pumed Senedd sut roedd y broses o wneud penderfyniadau cyllidebol wedi newid yn ystod y pandemig. Bu Gweinidogion yn cyfarfod yn amlach i drafod materion wrth iddyn nhw godi, ac roedd yna ddull mwy canolog o gyllidebu, gyda'r Gweinidog yn gwneud dyraniadau penodol unigol i gynlluniau a phrosiectau a blaenoriaethau penodol, yn hytrach na chodiannau cyffredinol i adrannau.⁵

17. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr un dull ar gyfer nodi blaenoriaethau wedi cael ei gymryd i'r Gyllideb Atodol hon trwy:

*"...setting up a group whereby I take a view, across Government, at the allocations that are sought by colleagues, and then make determinations and allocations as a result of those representations and bids that I receive from colleagues."*⁶

18. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu cydbwysu ei chyfrifoldeb Gweinidogol ei hun dros lywodraeth leol â'i rôl ganolog fel Gweinidog cyllid trwy gadw'r ddwy rôl ar wahân, gan ychwanegu:

*"I think it does mean that it is really incumbent on me to be absolutely straight with local government, because I can't promise them something that I can't deliver, which is really important."*⁷

⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 10, 2 Gorffennaf 2021

⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd, paragraff 111, 8 Ionawr 2021

⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 10, 2 Gorffennaf 2021

⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 15, 2 Gorffennaf 2021

19. Mewn ymateb i ddiwygio neu ailystyried y ffordd y mae trethiant lleol yn cael ei godi, dywedodd y Gweinidog fod yna ymrwymiad o fewn y **Rhaglen Lywodraethu**, newydd i wneud trethiant yn decach. Aeth ymlaen i ddweud:

*"Back in February, I published a report called 'Reforming Local Government Finance in Wales: Summary of Findings', which looked back at all of the work that we commissioned over the last Senedd term, looking at different ways to be more progressive in the way in which we deal with local taxation....it's my intention to continue to consider that report, to have some further discussions, to listen to the views of colleagues, and then, ideally, to come to a determination on the way forward in terms of the future of local taxation fairly shortly, so we can start making some progress on that important agenda."*⁸

20. Ers y Gyllideb Derfynol, mae Cyllideb y DU a'r Prif Amcangyfrifon wedi arwain at newidiadau o ran cyllid canlyniadol i Lywodraeth Cymru. Mae'r Gyllideb Atodol yn dangos dros £1.2 biliwn o adnoddau cyllidol heb eu dyrannu mewn cronfeydd wrth gefn.⁹

21. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn dal adnoddau sylweddol sydd heb eu dyrannu, ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedodd nad yw hynny'n anarferol a bod Canghellor y Trysorlys a gweinidogion cyllid eraill ledled y byd hefyd yn dal cyllid sylweddol, i ddarparu hyblygrwydd o ran ymateb i'r pandemig.¹⁰

22. Aeth y Gweinidog yn ei blaen i ddweud:

*"So, it's important that we have that element of flexibility, but that said, I have been undertaking a piece of work with colleagues, as I've mentioned, looking at their requirements to continue to respond to the pandemic, but also to deliver on that recovery work. And it will be my intention to make some significant allocations very shortly as we get all of those returns in—take that chance to look right across the piece to see what is needed across Government to respond to the needs across Welsh life, and then to make allocations as a result of that."*¹¹

⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 14, 2 Gorffennaf 2021

⁹ **Cyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2021-22, Nodyn Esboniadol, mis Mehefin 2021, tudalen 25**

¹⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 16, 2 Gorffennaf 2021

¹¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 16, 2 Gorffennaf 2021

Barn y Pwyllgor

23. Mae dyraniadau yn y Gyllideb Atodol hon yn seiliedig yn bennaf ar ymateb parhaus Llywodraeth Cymru i'r pandemig. Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog fod y Gyllideb Atodol hon yn ymarfer technegol sy'n aildatgan cyllidebau Llywodraeth Cymru yn unol â'r portffolios gweinidogol newydd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newidiadau ac yn ystyried y bydd hyn o gymorth i waith craffu ariannol.

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno tair cyllideb atodol yn ystod 2020-21 o ganlyniad i ymateb i'r pandemig. Er bod y Gweinidog wedi dweud bod hon yn gyllideb atodol dechnegol sy'n dychwelyd i fod yn unol â ffyrdd blaenorol o gyllidebu, cafwyd gwybodaeth fanwl yn sgil tair cyllideb atodol o 2021-22 ac mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cynnal y lefel hon o dryloywder.

25. Mae lefel sylweddol o adnodd cyllidol heb ei ddyrannu o dros £1.2 biliwn yn cael ei ddal gan Lywodraeth Cymru mewn cronfeydd wrth gefn. Mae'r Pwyllgor yn deall bod angen hyblygrwydd er mwyn mynd i'r afael â'r ymateb i'r pandemig, a bod y Gweinidog yn bwriadu gwneud rhai dyraniadau sylweddol yn fuan ar ôl trafod gyda'r Gweinidogion. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y Gyllideb Atodol hon bron yn gyfan gwbl ôl-weithredol, felly nid oes gan y Pwyllgor lawer o wybodaeth am ddyraniadau yn y dyfodol. Dylai'r Gweinidog roi digon o wybodaeth, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor gynnal gwaith craffu effeithiol ar y broses o wneud penderfyniadau. a'r broses ddyrannu.

26. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymrwymiad i ddiwygio trethiant yn y Rhaglen Lywodraethu, a bod gwaith eisoes yn cael ei gynnal gan y Gweinidog. Bydd y Pwyllgor yn cadw cadw golwg ar ddatblygiadau o ran y modd y mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo dros y Senedd hon.

Recommendation 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o fanylion mewn cyllidebau atodol yn y dyfodol ar sut mae dyraniadau newydd wedi'u blaenoriaethu.

4. Pryderon y Pwyllgor Cyllid blaenorol ynghylch cyllid teg

27. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyllid blaenorol **rannu** pryderon y Gweinidog ynghylch y diffyg eglurder ar brydiau o ran sut a phryd yr oedd penderfyniadau polisi sylweddol a wnaed gan Lywodraeth y DU – oedd yn cael effaith ar gyllid i Gymru – yn cael eu cyfleu. Er bod darparu gwarant cyllid wedi helpu'n rhannol, teimlwyd bod y materion yn parhau trwy gydol y flwyddyn ariannol.¹²

28. Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol at **Ysgrifennydd** Gwladol Cymru gyda chais y dylai cyhoeddiadau cyllido egluro a yw unrhyw gyllid a ddarperir i Gymru yn arian newydd, ac nid yn gyllid sydd wedi'i nodi neu ei gyhoeddi o'r blaen. At hynny, amlygodd y Pwyllgor bwysigrwydd tryloywder mewn cyfrifiadau cyllid, yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU ar **Dryloywder y Grant Bloc: Mehefin 2021**.

29. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y warant ariannu yn ddefnyddiol iawn wrth ddarparu rhywfaint o sicrwydd i weinyddiaethau datganoledig i'w galluogi i gynllunio. Fodd bynnag, dywedodd fod ansicrwydd yn parhau ynglŷn â sut mae Llywodraeth y DU yn cyfathrebu ynghylch polisiau sy'n arwain at gyllid canlyniadol, a dywedodd, "*we already find ourselves, this early on in the financial year, without a clear picture*".¹³

30. Darparodd y Gweinidog gyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU mewn perthynas ag addysg fel enghraifft o'r ansicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wynebu, dywedodd:

*"...we haven't been able to determine whether that's new money, whether it's repurposed funding, whether it's reannouncing previously-announced funding, and as such, we're unable to get a clear picture as to what our, if anything, Barnett consequential would be as a result of that announcement, and that's just one example."*¹⁴

31. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod hi a'i chymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Canghellor i drafod y mater hwn yn ymwneud â chyhoeddiadau ynghylch cyllido. Dywedodd y byddai "cyfarfod pedrochrog y

¹² **Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 Chwefror 2021**

¹³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 18, 2 Gorffennaf 2021

¹⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 18, 2 Gorffennaf 2021

Gweinidogion cyllid ym mis Gorffennaf hefyd yn cynnig cyfle arall i siarad am y materion hyn".¹⁵

Barn y Pwyllgor

32. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn o glywed bod yna faterion sylweddol yn parhau o ran sut mae Llywodraeth y DU yn cyfathrebu ynghylch polisiau sy'n arwain at gyllid canlyniadol cadarnhaol – neu negyddol – i Gymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog, ynghyd â Gweinidogion Cyllid eraill y DU, wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Canghellor i drafod y mater hwn. Mae angen i'r Pwyllgor fod â dealltwriaeth glir o'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal gwaith craffu effeithiol ar ei benderfyniadau.

33. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw cyfathrebu a gwaith craffu ar drefniadau cyllidol gyda Llywodraeth y DU yn addas at y diben. Gwnaeth **adroddiad gwaddol** y Pwyllgor Cyllid blaenorol awgrymu y dylid gweithio'n agosach gyda gweinyddiaethau datganoledig eraill a'r Pwyllgor Materion Cymreig, i roi pwysau ar y cyd ar Lywodraeth y DU i ddarparu eglurder ar benderfyniadau ynghylch cyllido. Mae'r Pwyllgor wedi **ysgrifennu** at ei gymheiriaid i fynd ar drywydd hyn ymhellach.

Recommendation 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i wella tryloywder wrth gyfrifo cyllid, ac ar gyfer mecanweithiau rhyng-lywodraethol a strwythurau llywodraethu mwy effeithiol na'r rheini sydd ar waith ar hyn o bryd, ac yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ganlyniad y trafodaethau hyn.

¹⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 21, 2 Gorffennaf 2021

5. Adferiad economaidd

34. Fel sydd wedi digwydd trwy gydol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid sylweddol at ddibenion cymorth economaidd. Cafodd tua £2.2 biliwn o **wariant refeniw ychwanegol Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â COVID-19 y llynedd – sef £5.3 biliwn** – ei wario ar weithgareddau yn ymwneud â'r economi a rhyddhad ardrethi busnes.

Ailadeiladau

35. Roedd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22 hefyd yn cynnwys **pecyn ysgogi cyfalaf** gwerth £224.5 miliwn sy'n rhoi cyllid i amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys £100 miliwn ar gyfer rhaglenni Tai Cymdeithasol. Ni chafodd hynny ei gynnwys yn y Gyllideb Ddrafft y cynhaliwyd gwaith craffu yn ei chylch gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol. Adeiladodd y pecyn ar becyn ailadeiladu gwerth £320 miliwn a gyhoeddwyd yn y **Drydedd Gyllideb Atodol** yn 2020–21.

36. Gwnaeth y Gweinidog amlinellu cwrpas ac amcanion y pecyn ysgogi cyfalaf gwerth £224.5 miliwn, gan nodi:

“That stimulus package built on the £320 million package that we announced within the financial year last year, but the additional funding to which you've referred, the £224.5 million, is a mixture of £188.5 million general capital and £36 million financial transactions capital. I'll just run through very, very quickly the kind of interventions that it is supporting. So, £147 million for our housing-related investments—that includes additional funding for the social housing grant, funding for the optimised retrofit programme, building on the £200 million already in the draft budget—£20 million for active travel—again, that builds on the £20 million that we put into the draft budget—£30 million for our twenty-first century schools and colleges programme—again, building on the £40 million in the draft budget.....So, a wide range of interventions that sought to kick start our recovery through the capital interventions”¹⁶

¹⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 25, 2 Gorffennaf 2021

Rhyddhad ardrethi busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch

37. Y dyraniad cyllidol mwyaf yn y Gyllideb Atodol yw £ 52.2miliwn i ymestyn y **rhyddhad ardrethi busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch** ar gyfer 2021–22 yn ei chyfanrwydd. Mae'r rhyddhad yn golygu na fydd busnesau ac elusennau sy'n gymwys ac sydd â gwerth ardrethol o dan £500,000 yn talu unrhyw ardrethi busnes eleni.

38. Cadarnhaodd y Gweinidog mai'r rheswm dros beidio â chynnwys y £352.2 miliwn i ymestyn y rhyddhad ardrethi busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch yn y Gyllideb Ddrafft oedd amseriad cyllideb Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd y diwrnod ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Chyllideb Derfynol. Er hynny, ychwanegodd:

*"...ahead of that budget, we were calling on the UK Government to put that intervention in place. It won't have escaped colleagues' notice that yesterday the full rate relief for businesses in England came to an end, whereas in Wales we have that full rate relief for the whole year, because of the decisions that we took here in Wales to support businesses to that additional extent."*¹⁷

Cefnogaeth i fusnesau

39. Mae'r Gyllideb Atodol hefyd yn dyrannu gwerth £55 miliwn o **gefnogaeth ariannol i fusnesau** sy'n parhau i gael eu heffeithio gan gyfyngiadau COVID-19. Bydd yr arian hwn yn helpu busnesau i dalu costau parhaus ym mis Mai a mis Mehefin 2021 wrth iddyn nhw "wrth iddynt baratoi i ailgwrthod ac amodau masnachu mwy arferol". Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu bod hyn yn rhan o becyn cymorth gwerth £200 miliwn.

40. Fe ofynnodd y Pwyllgor aint o'r £55 miliwn hwnnw a ddyrannwyd, faint o fusnesau wnaeth gyflwyno cais a faint o fusnesau oedd yn aflwyddiannus yn eu cais? Atebodd y Gweinidog:

"...that particular package was delivered both through Welsh Government and through local authorities, depending on the size of the ask and the nature of the challenge that the business was facing. So, the original May-to-June package only closed on Wednesday for those smaller businesses, and that's the part that is delivered through local authorities. So, the final position there is yet to be concluded. But, from the Welsh Government's side, the larger grants, those were for businesses with

¹⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 27, 2 Gorffennaf 2021

turnovers of more than £85,000. We had 4,420 applications across all categories; 76 per cent of those were approved. That's 3,300, at a value of £16.5 million. And we expect up to another £8 million to be approved under the local government scheme.”¹⁸

41. Dywedodd y Gweinidog fod nifer y ceisiadau a ddaeth i law yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, ond bod lefel y grant y gofynnwyd amdano gan y busnesau hynny yn llai na'r disgwyl. Cadarnhaodd fod y balans bellach wedi'i ail-gymhwyso i'r cylch cyllido newydd, a gyhoeddwyd gan y Weinidog yr Economi¹⁹ i gefnogi busnesau sy'n parhau i gael eu heffeithio gan y pandemig hyd at ddiwedd mis Awst.²⁰

42. Aeth y Gweinidog ymlaen i amlinellu bod y cyllid cymorth busnes o fewn £200 miliwn a glustnodwyd. Aeth ymlaen i ddweud bod Gweinidog yr Economi'n gweithio ar hyn o bryd gyda'i swyddogion i benderfynu pa fath o gynlluniau a chefnogaeth fydd eu hangen ar fusnesau wrth i ni symud ymlaen, gan awgrymu y gallai hyn fod fel a ganlyn, *“more of a space of recovery, rather than the kind of interventions we've had to do through lockdowns and so on”*²¹.

43. Ar 1 Gorffennaf, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi ddatganiad yn cyhoeddi cylch arall o'r Gronfa Cadernid Economaidd, yn cwmpasu mis Gorffennaf a mis Awst ac wedi'i dargedu at fusnesau y mae cyfyngiadau COVID-19 yn dal i effeithio ar eu gweithrediad. Nododd fel a ganlyn:

“Hwn fydd y pecyn terfynol o gymorth brys i'r rhai sy'n gallu masnachu, oni bai fod hynt y pandemig yn golygu bod angen ail-gyflwyno cyfyngiadau cau neu gyfyngiadau masnachu sylweddol iawn.”²²

Cefnogaeth i ddiwylliant

44. Mae £30 miliwn ychwanegol hefyd ar gael i **ymestyn y Gronfa Adferiad Diwylliannol**, sydd **wedi darparu** dros £60 miliwn i theatrau, lleoliadau cerdd, safleoedd treftadaeth, digwyddiadau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, gweithwyr llawrydd ac ati yn 2020–21. Roedd **disgwyl i'r Gronfa gau** ar 20 Ebrill (roedd disgwyl i'r gronfa i weithwyr

¹⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 29, 2 Gorffennaf 2021

¹⁹ **Gweinidog yr Economi yn cadarnhau cymorth pellach gan Lywodraeth Cymru i fusnesau y mae cyfyngiadau Covid yn effeithio arnynt, 30 Mehefin 2021**

²⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 30, 2 Gorffennaf 2021

²¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 32, 2 Gorffennaf 2021

²² **Datganiad Ysgrifenedig: Y Gronfa Cadernid Economaidd – Gorffennaf ac Awst 2021**

llawrydd gau ar **1 Mehefin**). Yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mehefin 2021, fe wnaeth y Prif Weinidog **ddweud**:

*"Ar 22 Mawrth, fe wnaethom gyhoeddi ail gam y gronfa adfer diwylliannol; £20 miliwn cychwynnol wedi'i neilltuo, a £10 miliwn arall a allai fod ar gael yn ôl yr angen. Derbyniwyd chwe chant o geisiadau hyd yma ar gyfer y cam nesaf hwnnw, ac mae 50 y cant ohonyn nhw yn dod o'r sector digwyddiadau."*²³

45. Dywedodd y Gweinidog fod £30 miliwn wedi'i ddyrannu yn wreiddiol i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol a bod £20 miliwn o hynny eisoes wedi'i ryddhau. Fodd bynnag, amlygodd fel a ganlyn, *"it's clear that there is quite a significant degree of demand in that sector, so we've released the further up to £10 million to meet that demand."*²⁴

*"The Arts Council of Wales is delivering part of that through their freelancer fund. So, I think that's about £8.8 million, and then further funding has been provided to organisations across the events, heritage, culture, creative and supplier sectors. So, examples would be: in events, the Llangollen International Musical Eisteddfod; in heritage, you've got the Talyllyn Railway Company; in culture, the Nantgarw China Works Trust; in creative, you've got Clwb Ifor Bach; and then supplier, PYST Cyfyngedig. So, that just shows the range of organisations that we are supporting through that fund. But, as I say, demand is there, so we've released the additional funding to try and meet it."*²⁵

Barn y Pwyllgor

46. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pecyn ysgogi cyfalaf – sy'n llif cyllido sylweddol – nad yw wedi'i gynnwys yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, ac felly ni chynhaliwyd llawer o waith craffu yn ei gylch. Am ei fod wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22, ni chafodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol gyfle i archwilio ai diben y cyllid hwn yw bod yn gam trawsnewidiol at ddibenion adferiad, a'i effeithiau disgwylidig.

47. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai'r dyraniad cyllidol mwyaf yn y Gyllideb Atodol yw £352.2 miliwn i ymestyn y rhyddhad ardrethi busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch. Mae'r

²³ Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, paragraff 80, 8 Mehefin 2021

²⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd, paragraff 38, 2 Gorffennaf 2021

²⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 39, 2 Gorffennaf 2021

Pwyllgor yn croesawu'r ffaith y bydd y rhyddhad ardrethi llawn i fusnesau yng Nghymru yn gymwys am weddill y flwyddyn, yn wahanol i Loegr.

48. Dywedodd y Gweinidog nad oedd y dyraniad hwn wedi'i gynnwys yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21 oherwydd amseriad Cyllideb Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, ar adeg cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, roedd gan Lywodraeth Cymru arian mewn cronfeydd wrth gefn oedd heb ei ddyrannu. O ganlyniad i hynny, mae'n ddichonadwy y gellid bod wedi ystyried cynnwys y cyllid hwn yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21, gan roi sicrwydd ychwanegol i fusnesau Cymru cyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU.

49. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cynllun grant sydd wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Atodol yn rhan o £200 miliwn sydd wedi'i glustnodi yn y maes hwn. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion am ganlyniadau'r arian grant a amlinellwyd yn y Gyllideb Atodol, gan gynnwys faint sydd wedi'i ddyrannu i fusnesau, gweddill yr arian sydd ar ôl a gwybodaeth bellach am ddisgwyliadau'r cyllid newydd a gyhoeddwyd ar gyfer mis Gorffennaf ac Awst gan Weinidog yr Economi. At hynny, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut y bydd y £200 miliwn sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio, a sut y bydd y defnydd ohono'n wahanol i ddulliau blaenorol o gefnogi busnes yn ystod cyfyngiadau symud, ac yn newid i ganolbwyntio ar gefnogi adferiad.

50. At hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi'r gefnogaeth i'r sector diwylliant sydd wedi'i hamlinellu yn y Gyllideb Atodol hon, sy'n dangos y galw am gefnogaeth yn y sector hwnnw.

Recommendation 3. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dyraniadau sylweddol sy'n gysylltiedig ag ysgogi cyfalaf, sydd wedi'u cynnwys yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021-22. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanlyniadau'r dyraniadau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Recommendation 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwerthusiad cychwynnol o'i chyllid grant ar gyfer mis Mai a mis Mehefin, gan gynnwys lefel y dyraniadau i fusnesau, lefel y cyllid heb ei wario, a'r rhesymau pam y bu tanwariant (yn enwedig lle mae hyn yn ymwneud â meini prawf cymhwysedd).

6. Trafnidiaeth

Ffyrdd

51. Ar 22 Mehefin, cafwyd datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar yr 'Adolygiad o ffyrdd'. Nododd fel a ganlyn:

*"Er mwyn cyrraedd targed 2050, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi dweud wrthym fod angen inni leihau allyriadau yn y degawd nesaf 63 y cant, ac erbyn 2040 mae angen iddyn nhw ostwng 89 y cant... Er mwyn cyflawni'r targedau hyn mae angen inni symud oddi wrth wario arian ar brosiectau sy'n annog mwy o bobl i yrru, a buddsoddi mewn dewisiadau amgen go iawn sy'n rhoi dewis ystyrion i bobl."*²⁶

52. Dywedodd y Gweinidog fod swyddogion wrth y camau olaf o sefydlu'r panel adolygu ffyrdd, a fydd yn cynnwys arbenigwyr blaenllaw'r DU ar drafnidiaeth ac ar newid yn yr hinsawdd, gan ychwanegu, "*which will then provide advice as to how we can shift that spending towards better maintaining existing roads, rather than building new ones*".²⁷

53. Dywedodd y Gweinidog fod y Dirprwy Weinidog wedi ei gwneud yn glir na fyddai'n ymestyn i gynlluniau ffyrdd sydd ar y gweill, ac nad oedd yn disgwyl iddo gael effaith fawr ar y flwyddyn ariannol hon.²⁸

Teithiau awyr

54. Ym mis Mawrth 2021, fe wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru gyhoeddi pecyn cymorth ariannol "yn erbyn cynllun pum mlynedd ar gyfer achub ac ailstrwythuro" Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd (y Maes Awyr).

55. Roedd y pecyn yn cynnwys grant hyd at £42.6 miliwn gyda'r bwriad o alluogi'r Maes Awyr i "ailstrwythuro ei weithrediadau, a sicrhau ei hyfywedd hirdymor". Byddai hyn yn cael ei ddarparu dros bedair blynedd, gydag £16 miliwn yn cael ei ddyfarnu yn y flwyddyn gyntaf (2021–22). Mae'r gefnogaeth hon wedi'i chynnwys yn y Gyllideb Atodol ac yn cynnwys refeniw o £11 miliwn a chyfalaf o £5miliwn.

²⁶ Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, paragraffau 246 – 247, 22 Mehefin 2021

²⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 45, 2 Gorffennaf 2021

²⁸ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 45, 2 Gorffennaf 2021

56. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd ganddi unrhyw bryder ar unwaith y bydd angen mwy o gymorth ariannol ar Faes Awyr Caerdydd nag a nodwyd yn y pecyn ariannol diweddaraf y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.²⁹ Aeth ymlaen i ddweud:

“That said, there are big challenges for airports across the globe at the moment, but our funding for Cardiff Airport, importantly, was tied to its recovery plan, and that recovery plan has been scrutinised by Welsh Government, by Holdco, by two independent consultancy firms, and there'll be reports provided that show the progress against the plan for recovery that has been put in place, and that plan's also been benchmarked against global, EU and UK passenger predictions, alongside third-party advice from the consultancy firms. So, we think we have a robust system in place to support the recovery plan for the airport.”³⁰

57. At hynny, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu £42.6 miliwn o'r benthyciad yr oedd wedi'i roi i Faes Awyr Caerdydd, gan adael iddo ad-dalu £26.3 miliwn erbyn 2045 a gostwng gwerth ei fuddsoddiad yn y Maes Awyr i £15 miliwn (o £61.3 miliwn).

58. Dywedodd y Gweinidog fod Gweinidog blaenorol yr Economi a Thrafnidiaeth wedi dangos mewn datganiad mai dileu'r swm hwnnw oedd y ffordd fwyaf cost-effeithiol o gefnogi'r maes awyr ar y pwynt hwnnw.³¹

Barn y Pwyllgor

59. Mae'r Pwyllgor yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer peth o'r benthyciad a roddodd i Faes Awyr Caerdydd. Gan ei bod yn ofynnol iddo dalu'n ôl 80 y cant o gyfanswm y cyllid cyfalaf trafodiadau a ddyrannwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am effaith ariannol penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddileu ychydig o'r benthyciad a roddodd i'r Maes Awyr.

60. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camau i sefydlu panel adolygu ffyrdd, a bydd yn awyddus i weld sut mae'r prosesau o ail-flaenoriaethu cynlluniau ffyrdd a dyraniadau cyllideb yn mynd rhagddynt pan gyhoeddir Cyllideb Ddrafft 2022-23.

²⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 47, 2 Gorffennaf 2021

³⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 47, 2 Gorffennaf 2021

³¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 50, 2 Gorffennaf 2021

Recommendation 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am effaith ariannol ei phenderfyniad i ddileu rhan o'i benthyciad i Faes Awyr Caerdydd, o ystyried ei bod yn ofynnol iddo dalu 80 y cant o gyfanswm y cyllid cyfalaf trafodion ariannol a ddyrannwyd gan Drysorlys EM.

Recommendation 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gwybodaeth am ail-flaenoriaethu cynlluniau ffyrdd yn cael ei chyflwyno'n glir ac yn dryloyw yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol.

7. Gwasanaethau cyhoeddus

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

61. Yn ystod 2020–21, darparwyd cyllid ychwanegol i gyrff y GIG gan Lywodraeth Cymru i ddelio â'r pandemig. Bu'r gyrff GIG hynny'n gwario £1.1 biliwn net ychwanegol oherwydd COVID-19.³²

62. Fe wnaeth y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021–22 ddyrannu £9.1 biliwn ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol). Roedd hynny **£439 miliwn – neu 5.1 y cant – yn fwy nag yng Nghyllideb Derfynol 2019–20.**

63. Disgwylir i ddyraniadau adnoddau i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynyddu gan £128.3 miliwn net (neu 1.4 y cant) o'i gymharu â'r Gyllideb Derfynol wedi'i hailddatgan ar gyfer 2021–22 (sef cynnydd net i £9.4 biliwn). Ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer y dyraniadau cyffredinol ar gyfer cyfalaf a gwariant a reolir yn flynyddol, sy'n aros yn unol â'r Gyllideb Derfynol wedi'i hailddatgan ar gyfer 2021–22.

64. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddweud wrth Cyfarfod Llawn ar 21 Mehefin 2021, bod:

"...achosion o'r coronafeirws, yn anffodus, yn cynyddu yma yng Nghymru. Unwaith eto, rŷn ni'n wynebu sefyllfa ddifrifol ac rŷn ni ar ddechrau'r drydedd don o'r pandemig."³³

65. Pan ofynnwyd iddi sut roedd y Gyllideb Atodol yn adlewyrchu hyn, dywedodd y Gweinidog:

"The supplementary budget identifies the £100 million that was also put in place to support the recovery of the NHS. So, we feel that there is good support there, both in terms of being able to respond to a third wave, and also to start that recovery work that is so important."³⁴

³² Archwilio Cymru, Ymateb COVID-19 yn sbarduno cynnydd mawr yng ngwariant y GIG wrth i bedwar bwrdd iechyd dorri dyletswyddau ariannol unwaith eto. Mehefin 2021.

³³ Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, paragraff 105, 21 Mehefin 2021

³⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 54, 2 Gorffennaf 2021

66. Yn dilyn hynny, amlygodd y Gweinidog fod y £100 miliwn wedi'i ddyrannu i gefnogi adferiad y GIG yn hytrach na'r ymateb i'r pandemig. Dywedodd:

*"Local plans have been put in place by the NHS organisations in order to deliver on that, and to use that £100 million. Ways in which they are approaching that are through identifying additional resources from external providers, either to provide services within the health board or in other facilities to increase the treatment capacity, because we want to start making some progress on those waiting lists, which I know we share concerns about. We're also exploring currently with the NHS what additional requirements might be needed to support planned care delivery for the future. So, this is more about considering whether we should have shared centres for diagnostics or treatment that are separate from the current hospital sites. So, that kind of work is also under way at the moment."*³⁵

67. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n bendant yn rhagweld gwneud dyraniadau iechyd pellach.³⁶ Roedd hi'n disgwyl i'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer gwasanaethau iechyd a chymdeithasol fod fel a ganlyn, "*significant, because they have big ambitions for recovery*"³⁷.

Llywodraeth leol

68. Roedd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2021–22 yn cynnwys £206.6 miliwn i gefnogi llywodraeth leol am chwe mis cyntaf 2021-22 trwy'r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol. Ni chafodd y cyllid hwnnw ei gynnwys yng Nghyllideb Ddrafft 2021–22 ac felly ni wnaeth y Pwyllgor Cyllid blaenorol gynnal gwaith craffu arno. Mae'n adeiladu ar dros £660 miliwn o ddyraniadau ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i Lywodraeth Leol yn 2020–21.

69. Er nad yw'r Gyllideb Atodol yn newid y swm a ddyrennir at y dibenion hyn, fe wnaeth y Gweinidog awgrymu yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mehefin y gellid dyrannu cyllid pellach i'r Gronfa Caledi "pe bai ei angen".³⁸

70. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi cytuno – yn ychwanegol at y cyllid ar gyfer y Gronfa Caledi Llywodraeth Leol am chwe mis cyntaf 2021-22, a gyhoeddwyd yn y Gyllideb

³⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 56, 2 Gorffennaf 2021

³⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 58, 2 Gorffennaf 2021

³⁷ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 58, 2 Gorffennaf 2021

³⁸ Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn, paragraff 22, 23 Mehefin 2021

Derfynol – ei bod wedi cytuno ar £26 miliwn yn ychwanegol trwy'r Gronfa Caledi, ar gyfer gofal cymdeithasol yn enwedig,³⁹

71. Dywedodd y Gweinidog fod disgwyl i'r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol gyflawni dwy elfen:

*"... the first providing local authorities with funding for the extra costs that they've incurred as a result of the pandemic, and for the things that we have been asking them to do. Adult social care is obviously one big part of that. Homelessness provision is another; the additional funding that has provided the rooms for people to be taken out of rough-sleeping has been particularly important and successful through that part of the scheme."*⁴⁰

72. Esboniodd y Gweinidog fod y Gronfa Caledi wedi darparu cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim, taliadau hunanynysu, cynnydd ar gyfer tâl salwch gweithwyr gofal cymdeithasol, profion wedi'u hariannu ac unedau bach i ymwelwyr mewn cartrefi gofal, ymhlith ymyriadau eraill.⁴¹

73. At hynny, dywedodd fod y Gronfa Caledi wedi cynnig cefnogaeth yn sgil y golled mewn incwm a wynebwyd gan awdurdodau lleol. Ychwanegodd:

*"Based on last year, it's about two thirds that goes towards the costs incurred and about a third towards the money that they've lost—the loss of income. So, we probably might expect it to be similar this time, although some services are opening up again."*⁴²

Addysg

74. Mae Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg wedi cael **cynnydd o £519 miliwn** yng nghyfanswm terfynau gwariant adrannol o ran refeniw a chyfalaf, sy'n gynnydd o 27 y cant ar gynlluniau gwariant a amlinellir yng Nghyllideb Derfynol 2021–22 Llywodraeth Cymru.

³⁹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 64, 2 Gorffennaf 2021

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 67, 2 Gorffennaf 2021

⁴¹ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 68, 2 Gorffennaf 2021

⁴² Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 69, 2 Gorffennaf 2021

75. Mae cyfran sylweddol o'r cynnydd hwn yn ganlyniad y **dyraniad o £387 miliwn** mewn referniw anghyllidol oherwydd benthyciadau myfyrwyr, sydd wedi'i glustnodi ac na all Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i ariannu ei chynlluniau gwariant.

Cyflog Athrawon

76. Mewn llythyr at Arweinwyr Cyngorau yng Nghymru ynghylch **Setliad referniw a chyfalaf Llywodraeth leol: dros dro 2021 i 2022**, fe wnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd **ddweud** y byddai angen cynnwys goblygiadau dyfarniadau cyflog yn 2021–22 o fewn cyllidebau Llywodraeth leol.

77. Fe wnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru **ddweud wrth** y Pwyllgor Cyllid blaenorol y byddai beth bynnag fydd canlyniad unrhyw ddyfarniad cyflog yn cael effaith sylweddol ar ei chyllidebau. Y gost cyflogau ar gyfer yr athrawon a'r staff hynny ar delerau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol oedd £3.8 biliwn, ac felly amcangyfrifwyd bod pob cynnydd o 1 y cant yn costio £38 miliwn.⁴³

78. Dywedodd y Gweinidog fod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol blaenorol wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol gyda'u setliad y llynedd, a nodi fel a ganlyn, "*it was a good settlement and that they would be expected to include pay in that, and that is what Jeremy Miles has repeated.*"⁴⁴ Aeth ymlaen i ddweud:

*"That said, they've been making strong representations to the Welsh Government about seeking additional support to help them with that cost after what's been a really difficult year for them. I've received a letter from the leader of the WLGA seeking a meeting to discuss it further and I'm happy to have that conversation."*⁴⁵

79. Amlygodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn aml yn ei chael ei hun mewn sefyllfa lle mae'n gwneud y canlynol:

"...providing additional funding to local government because of the way in which the academic year differs from the financial year and the challenges that they face. I want to find a more sustainable way forward for this as well. So, there will be two conversations: what do we do this year, where can we find an agreement with them, but then how can we

⁴³ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd, paragraff 165, 13 Ionawr 2021

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 70, 2 Gorffennaf 2021

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 71, 2 Gorffennaf 2021

*find a way to avoid this situation becoming something that occurs every single year.*⁴⁶

Barn y Pwyllgor

- 80.** Mae'r Pwyllgor yn nodi dyraniad o £100 miliwn ychwanegol i gefnogi adferiad y GIG. Fodd bynnag, awgrymodd y Gweinidog y byddai'r cyllid hwn hefyd yn cefnogi sefydliadau'r GIG i ymateb i drydedd don. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch diben y cyllid, ynghyd â gwybodaeth bellach am y cynlluniau lleol a baratowyd gan y sefydliadau GIG unigol, y dyrannwyd y cyllid yn eu herbyn. Dylai hyn gynnwys sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio, ei ganlyniadau arfaethedig a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd ar yr effaith y mae'n ei gael ar restrau aros y GIG yn y pen draw.
- 81.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ansicrwydd y sefyllfa, ond mae'n nodi bod y Gweinidog yn bwriadu gwneud dyraniadau pellach i'r gyllideb iechyd. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar oblygiadau ariannol cyllid pellach ar iechyd – pan fydd ar gael – ynghyd â gwybodaeth am ei ganlyniadau arfaethedig.
- 82.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaeth gyda chyrrff y GIG ynghylch gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Er ei fod yn cydnabod efallai na fydd y rhain yn annibynnol ar ei gilydd, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn egluro diben darparu cyllid ychwanegol i'r GIG, er enghraifft a yw'r cyllid wedi'i ddarparu i gefnogi adferiad neu er mwyn llywio'r broses o ailgynllunio/trawsnewid gwasanaethau.
- 83.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i awdurdodau lleol trwy'r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Gweinidog yn ymrwymo £26 miliwn yn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol trwy'r Gronfa Caledi. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad gan y Gweinidog ar fonitro defnydd ac effeithiolrwydd y Gronfa, gan gynnwys manylion pellach am y £26 miliwn ychwanegol.
- 84.** Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed bod y Gweinidog yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau pellach gyda'r Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch cyflog athrawon. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r materion ehangach sy'n wynebu Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r modd y mae dyraniadau addysg yn cael eu hariannu ar sail blwyddyn academiaidd, yn hytrach na blwyddyn ariannol.

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyllid, paragraff 71, 2 Gorffennaf 2021

Recommendation 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro diben y dyraniad o £100 miliwn ar gyfer y GIG ac yn darparu gwybodaeth bellach, gan gynnwys sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio, ei ganlyniadau arfaethedig a'r modd y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd ar yr effaith y mae'n ei chael yn y pen draw ar restrau aros y GIG.

Recommendation 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad ar unrhyw ddyraniadau pellach i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol pan fydd y wybodaeth honno ar gael, ynghyd â gwybodaeth am y canlyniadau arfaethedig.

Recommendation 9. Er ei fod yn cydnabod efallai na fyddant yn annibynnol ar ei gilydd, mae'r Pwyllgor yn argymhell, at ddibenion tryloywder, bod Llywodraeth Cymru yn egluro diben unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cyrff y GIG, ac a yw' cael eu ddarparu i gefnogi adferiad neu drawsnewid/ailgynllunio gwasanaethau.

Recommendation 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar fonitro ac effeithiolrwydd y Gronfa Caledi Llywodraeth Leol, gan gynnwys y swm a ddyrennir i awdurdodau lleol a manylion pellach am y £26 miliwn ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Recommendation 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar drafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn perthynas â chyflog athrawon, a'r mater ehangach o sicrhau bod dyraniadau i fyd addysg yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol, yn hytrach na'r flwyddyn academiaidd.